Archwilio Cymru
Audit Wales

# Effeithiolrwydd trefniadau atal twyll – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1929A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'i swyddogaethau cyfreithiol ei hun fel y disgrifiwyd uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw rwymedigaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw Aelod, Cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, byddwn yn byddwn yn tynnu sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru trwy e-bostio infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad cryf i atal twyll, mae ganddo drefniadau addas i helpu i atal a chanfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.


Adroddiad cryno

Cefndir 4

Prif ganfyddiadau a meysydd sydd angen eu gwella 5

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau 6

Atodiadau

Atodiad 1 – adnoddau atal twyll 13

Atodiad 2 – ymateb y rheolwyr 14

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Ar 11 Mehefin 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol **Trefniadau Atal Twyll yn sector cyhoeddus Cymru: Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**. Roedd yr adroddiad yn adolygiad lefel uchel a disgrifiadol o'r trefniadau a oedd ar waith o fewn Llywodraeth Cymru, y GIG a Llywodraeth Leol (awdurdodau unedol yn unig), a thynnodd sylw at rai negeseuon pwysig:

- mae'r colledion a achosir gan dwyll yn y sector cyhoeddus yn rhai sylweddol. mewn cyfnod o gyni, mae pob punt a gollir i dwyll yn bunt y gellid ei gwario ar wasanaethau cyhoeddus.
- mae twyll o bob math yn datblygu'n barhaus, felly mae angen i fesurau atal twyll ddal i fyny gyda'r twyllwyr.
- mae'r adnoddau a neilltuir ar gyfer gweithgarwch atal twyll yn amrywio'n fawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

2 Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, cymeradwyodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gynnig yr Archwilydd Cyffredinol i wneud rhagor o waith ar draws ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau atal twyll yn ymarferol ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Cyflawnwyd y gwaith hwn rhwng Rhagfyr 2019 a Chwefror 2020.

3 Ar 30 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad cenedlaethol o'r enw **Gwella ein perfformiad – mynd i'r afael â thwyll yng Nghymru,** sy'n crynhoi'r canfyddiad allweddol o'n hadolygiad ledled Cymru. Nid yw'n disgrifio'n fanwl y trefniadau sydd ar waith mewn cyrff unigol, ond mae'n nodi ystod o gyfleoedd i wella trefniadau atal twyll ar hyd a lled y wlad.

4 Er bod yr adroddiad cenedlaethol wedi nodi mai trefniadau atal twyll y GIG oedd y rhai mwyaf datblygedig ar draws y sector cyhoeddus, nododd fod agenda heriol yn parhau i sicrhau bod dulliau atal twyll yn addas ar gyfer y degawd nesaf lle mae globaleiddio a dyfodiad technoleg ddigidol wedi creu risgiau newydd, a chyfleoedd i'r twyllwyr.

5 Mae'r adroddiad yn galw ar gyrff y GIG i fod yn hapus gyda'r canlynol:

- mae adnoddau atal twyll yn cael eu pennu ar sail asesiad o ffactorau risg lleol;
- mae asesiadau risg atal twyll yn cael eu hintegreiddio â threfniadau rheoli risg corfforaethol;
- mae strategaethau ar waith i wneud mwy o ddefnydd o waith dadansoddi data er mwyn atal a chanfod twyll; a
- mae strategaethau ar waith i wella cydweithio o fewn y sector ac yn ehangach ar draws ffiniau sectorau.

6 Mae'r adroddiad cryno hwn yn nodi ein hasesiad o drefniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) ar gyfer atal a chanfod twyll. Mae ein

hasesiad yn seiliedig ar adolygiadau o'r dogfennau, gan gynnwys papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau, a chyfweliadau â nifer fach o staff.

# Prif ganfyddiadau a meysydd sydd angen eu gwella

7 Nododd ein hasesiad fod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad cryf i atal twyll, bod ganddo drefniadau addas i helpu i atal a chanfod achosion o dwyll a'i fod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol o'r gwaith yn fanylach yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn.

8 Wrth wneud y gwaith hwn, fe wnaethom nodi rhai meysydd sydd angen eu gwella (**Arddangosyn 1**): dylent eu hystyried ar y cyd â themâu'r adroddiad cenedlaethol. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r meysydd sydd angen eu gwella ar gael yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: meysydd sydd angen eu gwella**

| Meysydd sydd angen eu gwella |
| --- |
| **Hyfforddiant atal twyll**<br>I1 Rhoi hyfforddiant atal twyll gorfodol i rai grwpiau o staff neu bob un ohonynt |
| **Gweithgareddau rhannu gwybodaeth**<br>I2 Archwilio a gweithredu'r potensial ar gyfer rhannu gwybodaeth ymhellach gydag awdurdodau lleol. |
| **Galluogrwydd staff atal twyll**<br>I3 Ystyried gallu'r Arbenigwyr Atal Twyll Lleol sydd ei angen er mwyn cyfarparu'r lefelau gofynnol o waith rhagweithiol ac ymchwiliol, gan gynnwys hyfforddiant staff, a meithrin cadernid y tîm hwn. |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Ein canfyddiadau

9 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r meysydd ffocws o fewn ein gwaith a'n canfyddiadau.

**Arddangosyn 2: meysydd gwaith a chanfyddiadau**

| Maes gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| Fe wnaethom ystyried a yw'r haen uchaf yn dangos ymrwymiad i atal twyll ac yn darparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol i ymladd twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• y Bwrdd/tîm gweithredol yn hyrwyddo ymrwymiad clir i bolisi dim goddefgarwch o dwyll a hyrwyddo gwaith atal twyll;<br>• uwch-arweinwyr yn mynd ati i hyrwyddo a rhaeadru diwylliant atal twyll;<br>• dealltwriaeth sefydliad cyfan o'r cyfrifoldebau ar gyfer atal twyll ac adrodd am achosion amheus o dwyll; ac<br>• ymrwymiad sefydliadol i hyfforddiant atal twyll ac ymwybyddiaeth o foeseg, gyda hyfforddiant atal twyll gorfodol priodol ac wedi'i dargedu ar gyfer pob aelod o staff. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• y Cyfarwyddwr Cyllid yw'r swyddog gweithredol arweiniol sy'n gyfrifol am atal twyll.<br>• mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol (LCFS) yn adrodd yn rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol ac mae ganddo fynediad parod i'r Cyfarwyddwr Cyllid, os oes angen.<br>• mae atal twyll yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd<br>• mae'r sefydliad yn rhoi blaenoriaeth i bob mater sy'n ymwneud â thwyll, a cheir ymrwymiad clir gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.<br>• mae polisïau a strategaethau yn anfon neges gyson na fydd twyll yn cael ei oddef, ac y bydd pob cam yn cael ei gymryd i gosbi drwgweithredwyr naill ai'n droseddol neu'n ddisgyblaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng y rhai sy'n gyfrifol am waith gwrth-dwyll, llwgrwobrwyaeth a llygredd a grwpiau staff allweddol eraill a rheolwyr o fewn y sefydliad.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i achosion profedig o dwyll a'r camau a gymerwyd, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wasg.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys hyfforddiant gwrth-dwyll mewn sesiynau sefydlu.<br>Nodwyd y meysydd canlynol sydd angen eu gwella: |

| Maes gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| | • mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod nifer y staff sy'n cael hyfforddiant twyll yn is nag yr hoffent. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cynnig bod hyfforddiant yn orfodol, er nad oedd cytundeb ar hyn adeg ein gwaith maes. |
| Fe wnaethom ystyried a oes gan y sefydliad strwythur addas a digon o adnoddau medrus i atal a chanfod twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• Arbenigwr Atal Twyll Lleol dynodedig â chyfrifoldeb penodol am wrth-dwyll a'r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau atal twyll;<br>• lefel briodol o staff atal twyll profiadol, hyfforddedig ac achrededig i gynnal ymchwiliadau a gwaith atal twyll;<br>• eglurder o ran swyddogaethau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd gwrth-dwyll;<br>• buddsoddiad mewn cynlluniau gwrth-dwyll yn seiliedig ar benderfyniadau hyddysg sy'n deillio o asesiad risg twyll sy'n amlygu risgiau ac yn pennu'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw; a<br>• rhaglen flynyddol o waith gwrth-dwyll rhagweithiol (gwaith atal twyll) sy'n cwmpasu'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae yna ddau Arbenigwr Atal Twyll Lleol achrededig, ac un ohonynt yw'r arweinydd gwasanaeth enwebedig.<br>• mae'r Polisi Gwrth-Dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo yn nodi'r strwythur a'r cyfrifoldebau ar gyfer gwrth-dwyll gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, y Pennaeth Archwilio Mewnol, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Arbenigwyr Atal Twyll Lleol.<br>• gall yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol ofyn am gymorth gan Wasanaeth Awdurdod Gwrth-dwyll Cymru mewn perthynas â gordaliadau ac unrhyw ymchwiliadau sy'n werth £15,000 a mwy.<br>• mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol arweiniol yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ar lefelau staffio a chamau gweithredu.<br>• mae'r buddsoddiad yn y gwasanaeth gwrth-dwyll yn seiliedig ar sawl ffactor megis yr adnodd hanesyddol, risgiau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg, a'r angen i gydbwyso'r gwaith ar draws y meysydd strategol twyll allweddol.<br>• mae'r swm cyfwerth ag amser cyflawn o adnoddau gwrth-dwyll lleol fesul 1,000 o staff yn 0.2 WTE o gymharu â chyfartaledd GIG Cymru, sef 0.19 WTE (**Atodiad 1**).<br>• mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynegi rolau a chyfrifoldebau gwrth-dwyll yn glir.<br>• mae gan staff Arbenigwyr Atal Twyll Lleol a staff gwrth-dwyll fynediad i'r holl systemau, cofnodion ac adeiladau sydd eu hangen i wneud eu gwaith. |

| Maes gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| risg gyda'r amser a neilltuir wedi'i glustnodi i waith rhagweithiol. | • mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn cwblhau Adnodd Hunanadolygu Awdurdod Gwrth-Dwyll y GIG (SRT) bob blwyddyn. Lle nodir problemau (risgiau), cânt eu hymgorffori yn y cynllun gwaith gwrth-dwyll, ynghyd ag unrhyw faterion/risgiau a nodwyd drwy waith gwrth-dwyll cyffredinol. Mae'r adnodd hunanadolygu yn nodi blaenoriaethau gwaith rhagweithiol ar gyfer y flwyddyn.<br>Nodwyd y meysydd canlynol sydd angen eu gwella:<br>• er bod lefelau staffio fymryn yn uwch na'r cyfartaledd Cymru, dim ond 2.0 WTE yw'r lefelau staffio. Pe bai lefel y gwaith ymchwiliol yn cynyddu, neu pe bai unrhyw aelod o staff yn absennol, gallai hyn effeithio ar y gallu i gyflawni'r lefel o waith gwrth-dwyll rhagweithiol y cytunwyd arno.<br>• yn ystod 2018-19, cyflwynwyd hyfforddiant gwrth-dwyll i tua 1,075 o aelodau staff, sef tua 11% o weithlu'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae'r modiwl hyfforddi e-ddysgu yn golygu y gellir darparu hyfforddiant gwrth-dwyll yn hawdd i lawer o staff. |
| Fe wnaethom ystyried a oes gan y sefydliad fframwaith polisi cadarn i gefnogi trefniadau gwrth-dwyll effeithiol.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• strategaeth/polisi gwrth-dwyll sy'n nodi dull y sefydliad o reoli risgiau twyll ac yn diffinio cyfrifoldebau gwrth-dwyll penodol;<br>• cod ymddygiad sy'n nodi ymddygiadau derbyniol a sut i adrodd a rheoli gwrthdaro buddiannau; | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol arweiniol yn ymwneud â datblygu ac adnewyddu polisi Gwrth-Dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo y Bwrdd Iechyd (y polisi) fel bo'r angen. Fe'i cymeradwyir gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Nodir y Strategaeth Gwrth-dwyll fel rhan o'r polisi hwn ac mae ar gael i'r holl staff ar y fewnrwyd.<br>• mae'r polisi'n cael ei groesgyfeirio i bolisïau allweddol, gan gynnwys:<br>– Polisi Codi Pryderon Cymru Gyfan (Chwythu'r Chwiban);<br>– Polisi Disgyblu Cymru Gyfan; a |

| Maes gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| • trefniadau chwythu'r chwiban cadarn sy'n nodi dulliau o adrodd am dwyll;<br>• cofrestri a gynhelir o roddion a lleoedd; a<br>• sgrinio cyn cyflogi. | – Polisi Safonau Ymddygiad y Bwrdd Iechyd.<br>• mae trefniadau chwythu'r chwiban lleol y Bwrdd Iechyd yn gynhwysfawr. Mae'n pwysleisio y bydd pob pryder yn cael ei drin yn gyfrinachol a'i drin yn broffesiynol yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir nad oes unrhyw wrthgyhuddiad yn erbyn staff sy'n codi amheuon rhesymol.<br>• mae Polisi Safonau Ymddygiad y Bwrdd Iechyd yn nodi disgwyliadau mewn perthynas â datgan buddiannau.<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i gynnal ac adolygu cofrestri buddiannau, rhoddion a lletygarwch.<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn destun archwiliadau cyn cyflogi, cyn dechrau gweithio i'r sefydliad.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. |
| Fe wnaethom ystyried a oes gan y sefydliad asesiad risg twyll effeithiol ynghyd ag ymatebion priodol i faterion sy'n datblygu.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• asesiadau risg twyll rheolaidd a chynhwysfawr a drafodir ac y cytunir arnynt gydag uwch-arweinwyr a'r Pwyllgor Archwilio; | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn cwblhau Adnodd Hunanadolygu Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG (SRT) bob blwyddyn. Lle nodir problemau (risgiau), cânt eu hymgorffori yn y Cynllun Gwaith Gwrth-dwyll, ynghyd ag unrhyw faterion/risgiau a nodwyd drwy waith gwrth-dwyll cyffredinol. Mae'r adnodd hunanadolygu yn nodi blaenoriaethau gwaith rhagweithiol ar gyfer y flwyddyn. Caiff y risg o dwyll ei gwerthuso gydol y flwyddyn a gwneir newidiadau i'r cynllun blynyddol fel y bo'n briodol.<br>• mae ystyried y risg o dwyll yn cyd-fynd yn agos â'r broses rheoli risg gyffredinol. |

<table>
<tr><th>Maes gwaith</th><th>Canfyddiadau</th></tr>
<tr><td><ul><li>asesiadau risg twyll a gaiff eu cynnwys fel rhan o fframwaith rheoli risg cyffredinol y sefydliad; a</li><li>risg twyll yn rhan o ddyluniad y system er mwyn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer twyll.</li></ul></td><td><ul><li>mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn craffu ar yr holl bolisïau perthnasol o safbwynt gwrth-dwyll. Rhoddir adborth i'r perchennog polisi fel y bo'n briodol. Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn ymwneud â datblygu polisi allweddol o gyfnod cynnar.</li></ul>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd sydd angen eu gwella.</td></tr>
<tr><td>Fe wnaethom ystyried a yw amgylchedd rheolaeth fewnol y sefydliad yn cefnogi trefniadau effeithiol er atal ac olrhain twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<ul><li>rheolaethau mewnol wedi'u cynllunio a'u profi i ddelio â risgiau twyll a nodwyd ac oedd yn helpu i atal twyll rhag digwydd;</li><li>adolygiadau archwilio mewnol o risgiau twyll a phrofi rheolaethau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll;</li><li>y sefydliad yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os canfyddir nad yw rheolaethau mewnol yn gweithredu cystal â'r bwriad a bod gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau twyll; ac</li><li>mae'r sefydliad yn defnyddio proses paru data i ddilysu data a chanfod gweithgarwch a allai fod yn dwyllodrus.</li></ul></td><td>Gwelsom yr arferion da canlynol:<ul><li>mae'r polisi Gwrth-Dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo yn nodi mai rheolwyr yw'r llinell amddiffyn gyntaf yn erbyn twyll, llygredd a llwgrwobrwyo a rhaid iddynt sicrhau bod system ddigonol o reolaeth fewnol yn bodoli o fewn eu meysydd cyfrifoldeb a bod y rheolaethau yn gweithio'n effeithiol.</li><li>mae Tîm Archwilio Mewnol y Bwrdd Iechyd yn adolygu risgiau o dwyll ac yn profi rheolaethau sydd wedi'u cynllunio i atal a chanfod twyll fel rhan o'i raglen waith flynyddol. Caiff gwybodaeth a chudd-wybodaeth eu rhannu gyda gwasanaethau gwrth-dwyll lleol yn unol â'r protocol rhannu gwybodaeth y cytunwyd arno.</li><li>mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os canfyddir nad yw rheolaethau mewnol yn gweithredu cystal â'r bwriad ac yn dysgu gwersi o achosion o dwyll.</li><li>mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol, gwiriadau dilysu ôl-daliad gofal sylfaenol a gwiriadau lleol eraill (fel y gyflogres).</li><li>mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio meddalwedd rheoli achosion i gofnodi holl wendidau'r system fel y nodwyd o ganlyniad i ymchwiliadau a/neu ymarferion atal a chanfod rhagweithiol. Agwedd bwysig ar y feddalwedd hon yw cofnodi'r gwersi a ddysgwyd.</li></ul></td></tr>
</table>

| Maes gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| | • mae'r Bwrdd Iechyd yn ymchwilio i'r potensial i wneud mwy o'r gwaith a wneir gan y tîm Dilysu Ôl-daliadau.<br>Nodwyd y meysydd canlynol sydd angen eu gwella:<br>• dim ond ychydig o enghreifftiau o ddefnyddio dadansoddeg data fel ffordd o atal twyll a nododd ein hadolygiad cenedlaethol, sef ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn bennaf. |
| Fe wnaethom ystyried a oedd gan y sefydliad ymateb priodol i dwyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cynllun ymateb i dwyll cynhwysfawr sy'n nodi trefniadau clir ar gyfer cofnodi ac ymchwilio i honiadau o dwyll;<br>• gweithredu i sicrhau bod pob honiad o dwyll yn cael ei asesu:<br>• gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer cynnal twyll;<br>• ymchwiliadau sy'n dilyn arfer proffesiynol priodol ac yn unol â'r cynllun ymateb i dwyll;<br>• ystyried yr ystod lawn o gosbau sydd ar gael, a cheisio gwneud iawn (er enghraifft, adennill arian ac asedau) lle y bo'n briodol; | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae Cynllun Ymateb i Dwyll y Bwrdd Iechyd ar dwyll yn dilyn arferion gorau yn unol â chynghorion awdurdod gwrth-dwyll y GIG.<br>• mae staff cymwysedig yn ymchwilio i bob achos amheus o dwyll, ac yn unol â'r Cynllun Ymateb i Dwyll. Caiff canlyniadau ymchwiliadau eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio ac awdurdod gwrth-dwyll y GIG. Caiff ymchwiliadau eu monitro gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r ystod lawn o gosbau sydd ar gael (camau disgyblu staff, gweithredu sifil a gweithredu troseddol) ac yn ceisio adennill arian lle mae hynny'n briodol a chost-effeithiol.<br>• mae'r holl ymchwiliadau wedi'u dogfennu ar feddalwedd rheoli achosion. Mae'r hyn a ddysgwyd o dwyll yn cael ei rannu â staff priodol er mwyn cymryd camau a gweithredu newidiadau i systemau a gweithdrefnau lle y bo'n briodol.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu'n rhagweithiol a rheolaidd â sefydliadau ac asiantaethau eraill fel gwasanaethau cyfreithiol a risg y GIG, yr heddlu, gwasanaethau mewnfudo'r Swyddfa Gartref, awdurdodau lleol, a chyrff rheoleiddio a phroffesiynol i helpu i drechu achosion o |

| Maes gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| • system rheoli achosion briodol i gofnodi a monitro cynnydd achosion posibl o dwyll; a<br>• cydweithio â phartneriaid allanol i fynd i'r afael â thwyll. | dwyll, llygredd a llwgrwobrwyo. Gellir prynu gwasanaethau arbenigol gan awdurdod gwrth-dwyll y GIG lle bo angen.<br>Nodwyd y meysydd canlynol sydd angen eu gwella:<br>• dywedodd y Bwrdd Iechyd fod lle i wneud mwy o ddefnydd o rannu gwybodaeth gydag awdurdodau lleol. |
| Fe wnaethom ystyried a oes gan y sefydliad adroddiadau a chraffu priodol ar waith i sicrhau bod ei ddiwylliant gwrth-dwyll a'i fframwaith yn gweithredu'n effeithiol.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cadw cofnod o golledion twyll ac adenillion;<br>• y Pwyllgor Archwilio yn mynd ati'n rhagweithiol i atal twyll a hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll effeithiol; a'r<br>• Pwyllgor Archwilio yn herio ac yn adolygu gwaith gwrth-dwyll, ac yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwrth-dwyll. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw cofnod o golledion ac adenillion twyll;<br>• mae gwrth-dwyll yn eitem sefydlog ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd;<br>• cyflwynir y cynllun blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ynghyd ag adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gyflawni'r rhaglen waith flynyddol, ynghyd â risgiau twyll a nodwyd a'r camau gweithredu i'w lleihau; a<br>• cynhyrchir diweddariadau achos ar gyfer sesiwn breifat y Pwyllgor Archwilio yn amlinellu achos, statws ac adenillion arian/asedau.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. |

# Atodiad 1

## Adnoddau gwrth-dwyll

Mae'r Arddangosyn canlynol yn nodi nifer yr adnoddau Arbenigwr Atal Twyll Lleol fesul 1,000 o staff.

**Arddangosyn 3: Nifer yr adnoddau Arbenigwr Atal Twyll Lleol am bob 1,000 o staff (o'r uchaf i'r lleiaf)**

| | LCFS WTE | Cyfanswm nifer y staff o fewn y sefydliad | LCFS WTE fesul 1,000 o staff (cyfrifiad) |
|---|---|---|---|
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru[1] | 0.2 | 280 | 0.71 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 2.0 | 3,535 | 0.57 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys[2] | 1.2 | 2,286 | 0.52 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg[2] | 2.6 | 11,944 | 0.22 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 2.0 | 10,032 | 0.20 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 2.6 | 13,659 | 0.19 |
| **GIG Cymru (cyfartaledd)** | **18.2** | **94,614** | **0.19** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe[2] | 2.2 | 12,962 | 0.17 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 2.9 | 18,491 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru[1] | 0.3 | 1,903 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre[1] | 0.4 | 4,411 | 0.16 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro[1] | 1.8 | 15,111 | 0.12 |

[1] Mae tîm Arbenigwyr Atal Twyll Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd hefyd yn darparu gwasanaethau i Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre drwy gytundeb lefel gwasanaeth blynyddol.

[2] Mae tîm Arbenigwyr Atal Twyll Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe hefyd yn darparu gwasanaethau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys drwy gytundeb lefel gwasanaeth blynyddol.

Ffynhonnell: Awdurdod Gwrth-dwyll GIG Cymru, adroddiad perfformiad gweithredol 2019-20 (chwarter 3), a chyfrifiad StatsCymru ar 30 Medi 2019 (o system cofnod staff electronig y GIG).

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r meysydd sydd angen eu gwella (i'w mewnosod ar ôl i'r adroddiad ac ymateb y rheolwyr gael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio).

**Arddangosyn 4: Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r meysydd sydd angen eu gwella**

| Cyf | Maes ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth Uchel (Ydy/Nac Ydy) | Wedi'i Dderbyn (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I1 | **Hyfforddiant atal twyll** Rhoi hyfforddiant atal twyll gorfodol i rai grwpiau o staff neu bob un ohonynt | Mwy o staff i gael hyfforddiant atal twyll, gan arwain at fwy o ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau a materion cysylltiedig. | Ydy | Do | Camau a nodwyd: Mae camau wedi eu cymryd eisoes i weithredu dysg orfodol ar ffurf e-ddysgu Atal Twyll. Dylid cyflawni yn 2020/21 a bydd yn gweithredu ar y cyd â'r rhaglen waith gyffredinol i godi ymwybyddiaeth o atal twyll a hyfforddiant risg pwrpasol rheolaidd i grwpiau o staff risg uchel. | 31/03/2021 – I'w gwblhau erbyn diwedd cynllun gwaith y flwyddyn hon. | Huw Thomas, Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Ben Rees – Pennaeth Atal Twyll |

| Cyf | Maes ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth Uchel (Ydy/Nac Ydy) | Wedi'i Dderbyn (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I2 | **Gweithgaredda u rhannu gwybodaeth** Archwilio a gweithredu'r potensial ar gyfer rhannu gwybodaeth ymhellach gydag awdurdodau lleol. | Budd i'r ddwy ochr yn sgil rhannu gwybodaeth yn fwy gan arwain at gryfhau'r gwasanaeth. | Ydy | Do | Camau a nodwyd: Byddai mwy o gyfarfodydd rheolaidd â phartneriaid lleol yn fuddiol. Mae hyn yn cwmpasu pob corff gorfodi. Er bod gan y Bwrdd Iechyd ar y cyfan berthynas â'r partneriaid lleol hyn, nid oes rhannu penodol ar gyfer atal twyll. Bydd cyfarfodydd cyflwyno yn cael eu cynnal i ganfod sut yn union gallwn gynorthwyo ein gilydd. Bydd yn hanfodol cynnal y berthynas hon tua'r dyfodol. | 31/03/2021 – I'w weithredu yn ystod cynllun gwaith y flwyddyn hon. | Huw Thomas, Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Ben Rees – Pennaeth Atal Twyll |

| Cyf | Maes ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth Uchel (Ydy/Nac Ydy) | Wedi'i Dderbyn (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad Cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I3 | **Galluogrwydd staff atal twyll**<br>Ystyried gallu'r Arbenigwyr Atal Twyll Lleol sydd ei angen er mwyn cyfarparu'r lefelau gofynnol o waith rhagweithiol ac ymchwiliol, gan gynnwys hyfforddiant staff, a meithrin cadernid y tîm hwn. | Cyflawni potensial mwyaf posibl y gwasanaeth | Ydy | Do | Camau a nodwyd:<br>Derbynnir y gallai cynnydd mewn capasiti arwain at fwy o effaith ac enillion o ran gwaith Atal Twyll. Fodd bynnag, nid yw arbedion maint wedi'u harchwilio yn fanwl eto.<br>Yn unol â'r adroddiad, adnodd y Bwrdd Iechyd fesul 1,000 o staff yw 0.2 WTE o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol GIG Cymru o 0.19 WTE. | I'w gytuno – Fel y trafodwyd gyda Philip Jones mae angen archwilio'r mae hwn yn fwy. | Huw Thomas, Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Ben Rees – Pennaeth Atal Twyll |

Archwilio Cymru
Audit Wales


Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit. Cymru

Gwefan: www.audit.wales/cy


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English .